Adroddiad cynnydd asesiad personol – Rhifedd (Gweithdrefnol)

Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deall adroddiad y dysgwr

Mae'ch plentyn wedi gwneud asesiad personol byr ar-lein ar gyfer Rhifedd (Gweithdrefnol). Mae'r wybodaeth hon i'ch helpu i ddeall yr adroddiad a roddwyd iddyn nhw.

Pwrpas asesiadau personol yw helpu plant i wneud cynnydd, a hynny trwy ddeall yr hyn y gallan nhw ei wneud, yr hyn na allan nhw ei wneud, a'u camau nesaf.

Beth yw Rhifedd (Gweithdrefnol)?

Mae Rhifedd (Gweithdrefnol) yn canolbwyntio ar ffeithiau a gweithdrefnau rhifiadol – yr 'offer' rhifiadol sydd eu hangen er mwyn cymhwyso rhifedd i gyd-destunau amrywiol.

Sut mae'r asesiad yn gweithio?

Dewisir y cwestiynau o 'gronfa' fawr a gynlluniwyd ar gyfer Blynyddoedd 2 i 9. Mae pob cwestiwn wedi'i ddewis yn seiliedig ar yr ateb a roddwyd i'r cwestiwn blaenorol.

Beth mae'r adroddiad yn ei ddweud?

Mae adran gyntaf yr adroddiad yn dangos cynnydd eich plentyn yn yr Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol). Mae'r asesiadau a gymerodd eich plentyn yn cael eu dangos ar y graff. Efallai y bydd eich plentyn wedi cymryd mwy nag un asesiad yn y flwyddyn, felly bydd mwy nag un asesiad ar y graff: naill ai un neu ddau ar gyfer pob blwyddyn ysgol. Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd yn yr asesiadau, mae'r graff yn dangos lle mae'ch plentyn arni o'i gymharu â phlant eraill sydd yn ei grŵp blwyddyn ledled Cymru. Byddwch yn gallu gweld cynnydd eich plentyn o un flwyddyn i'r llall.

Mae ail adran yr adroddiad yn dangos sgôr safonedig ar sail oedran ar gyfer eich plentyn o ran ei asesiad diweddaraf. Mae hyn yn dangos sut y mae eich plentyn wedi'i wneud o'i gymharu â phlant eraill yng Nghymru o flwyddyn ysgol nodweddiadol sydd wedi eu geni yn yr un flwyddyn a'r un mis.

Yn sgil yr amharu a achoswyd gan bandemig COVID-19, mae'n bosibl y bydd sgoriau rhai plant ar gyfer asesiadau yn 2020 a'r blynyddoedd dilynol yn is nag y byddid wedi disgwyl fel arall.

70–130 yw ystod y sgôr a'r cyfartaledd yw 100.

Mewn ychydig o achosion, os bydd gan blentyn sgôr safonedig ar sail oedran uchel iawn, caiff ei dangos fel 'mwy na 130' (130+), a chaiff sgôr plentyn sy'n datblygu sgiliau'n arafach ei dangos fel 'llai na 70' (<70). Bydd tua 2.5 y cant o ddysgwyr yn cael sgôr sy'n llai na 70, a bydd tua 2.5 y cant o ddysgwyr yn cael sgôr sy'n fwy na 130.

Am ragor o wybodaeth am asesiadau personol ewch i
hwb.llyw.cymru/asesiadau-personol-ar-gyfer-rhieni-a-gofalwyr

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45368
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg